Cenn@d

MEDI 20 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 134

# Llifogydd Libya – ein hymateb fel eglwysi

Yn rhifyn 13 Medi o *Cenn@d* roeddem yn tynnu sylw ein darllenwyr at yr angen i gefnogi pobl Moroco yn dilyn y daeargryn yn y wlad. O fewn dyddiau, gwelwyd trychineb enfawr arall, y tro hwn yn Libya ar gyfandir Affrica, yn dilyn llifogydd dychrynllyd. Unwaith eto, mae'r Groes Goch wedi ymateb ar fyrder ac ar waith yn y rhanbarth, ac unwaith eto mae modd cyfrannu yn uniongyrchol i'w gwaith drwy glicio ar eu dolen apêl: Morocco Earthquake Appeal

Erbyn hyn hefyd mae Cymorth Cristnogol wedi lansio'u apêl argyfwng brys hwythau ar gyfer Libya, gan gydweithio â'i phartneriaid, Dan Church Aid, sy'n cefnogi gwaith y Cilgant Coch yn y wlad. Mae miloedd o bobl wedi marw a miloedd yn dal ar goll yn dilyn y llifogydd ddinistriol a 'sgubodd ymaith gymdogaethau cyfan yn ninas porthladd Derna. Mewn ymgais i ddarparu cymorth hanfodol, mae'r elusen ryngwladol Cymorth Cristnogol wedi lansio apêl arbennig. Yn drychinebus, fe lwyddodd Storm Daniel i chwalu dau argae, gan anfon llifeiriant nerthol o ddŵr a gweddillion drwy'r ddinas, gan ddymchwel cartrefi ac adeiladau eraill a datgysylltu cyflenwadau ynni a dŵr. Mae'r rheini sydd wedi goroesi wedi colli popeth. Mae eu cartrefi wedi'u gorchuddio â mwd a malurion, a'r ofn ydy fod llawer o bobl hefyd wedi'u claddu yno. Mae pobl bellach yn brin o'r hanfodion megis mynediad at ddŵr glân a chyfleusterau glanweithdra digonol.

Mae Cymorth Cristnogol yn gweithio gyda Dan Church Aid (DCA), ei phartner yn Act Alliance, sydd â phresenoldeb yn Libya ers 2011. Maen nhw'n darparu cymorth meddygol i'r timau achub yn Derna ac yn helpu i sefydlu llochesi i gynnal teuluoedd digartref yn Benghazi. Mae DCA hefyd yn dosbarthu eitemau sylfaenol fel blancedi a gwelyau, eitemau glanweithdra a hylendid gan gynnwys hylif sebon, siampŵ, a deunyddiau misglwyf. Pan fydd amgylchiadau'n caniatáu, fe fydd DCA hefyd yn darparu cymorth ariannol.

Dywed Michael Mosselmans, Pennaeth Adran Ddyngarol Cymorth Cristnogol:

"Mae'r golygfeydd yn Libya yn dorcalonnus. Gyda'r isadeiladwaith, gan gynnwys ysbytai a chartrefi, wedi'u golchi ymaith gan y llifogydd, fe welwn bobl heb yr hanfodion, megis mynediad at ddŵr glân a glanweithdra digonol i atal y peryg o heintiau. Mae Cymorth Cristnogol, felly, wedi lansio apêl i atgyfnerthu'r cymorth y gallwn ei roi trwy ein partner, Dan Church Aid, i bobl sydd wedi colli'u cartrefi, eu bywoliaeth a'u hanwyliaid.

"Bydd pob gweddi, pob rhodd, pob gweithred yn dod â gobaith i'r bobl a effeithiwyd gan y drychineb. Bydd rhodd o £25 yn talu am becyn ymateb dyngarol sy'n cynnwys arian ac eitemau sydd heb fod yn fwyd, megis blancedi a gwelyau, eitemau glanweithdra a hylendid megis hylif sebon, siampŵ, brwshys dannedd, deunyddiau misglwyf, weips a chewynnau i fabanod, a dŵr potel.

"Mae partner Cynghrair ACT Cymorth Cristnogol, Dan Church Aid o Ddenmarc, wedi sefydlu presenoldeb yn Libya ers 2011, ac mae bellach yn helpu gyda'r ymateb brys. Mae staff DCA yn nwyrain y wlad yn cynorthwyo Cilgant Coch Libya yn Derna ei hun, yn benodol gyda chymorth meddygol i'r timau chwilio ac achub. Mae staff logisteg a staff maes DCA yn caffael eitemau sylfaenol ar gyfer y llochesi er mwyn helpu teuluoedd sy'n cyrraedd yno'n waglaw.



Llun: AFP via Getty Images

Pobl yn archwilio ardal wedi'i difrodi gan lifogydd dirybudd yn Derna, dwyrain Libya, 11 Medi 2023

Bydd timau DCA yn cynorthwyo i ddosbarthu'r eitemau hyn i bob lloches fel rhan o'n hymateb i'r cam cyntaf. Ochr yn ochr â'r gweithgarwch hwn, mae DCA wrthi'n brysur yn prynu mwy o offer a chyfarpar i'r timau chwilio brys yn Derna ac mewn lleoliadau eraill. Mae prinder dybryd o eitemau sylfaenol megis fflachlampau llaw, hetiau caled/helmedau, menig gwaith, rhaffau a systemau pwli, ynghyd ag offer i symud y llanast.

"Trwy ymuno â ni, medrwch chithau helpu pobl sydd mewn angen i ailadeiladu eu bywydau."

I gefnogi'r apêl, ewch i wefan: Cymorth Cristnogol.

### Gweddi dros Libya

Arglwydd Iesu, rwyt ti'n deall beth yw galar, ac yn wylo gyda'r rhai sy'n dioddef.
Rwyt ti'n gallu uniaethu gyda'r torcalonnus, ac yn cysuro'r rhai sy'n galaru.
Dros y dyddiau diwethaf mae llifogydd dinistriol wedi arwain
at golledion bywyd y tu hwnt i fesur i bobl Libya.

Gyda chymaint o filoedd wedi'u heffeithio,
helpa ni i weld y tu hwnt i'r ffigyrau,
ac i ddeall anghenion cymunedau go iawn a theuluoedd
y mae eu bywydau wed'i heffeithio gan y dinistr.

Gweddïwn y byddi'n cryfhau'r rhai sy'n dal i frwydro i oroesi,
ac yn cynnal y gweithwyr sy'n ceisio'u hachub.
Gweddïwn y byddi'n cysuro'r rhai sy'n ofni'r gwaethaf
wrth iddyn nhw aros am newyddion.
Gweddïwn y byddi gyda phawb sydd mewn trawma
ac sy'n galaru ar hyn o bryd.

Dangos i ni, Arglwydd, sut i'th wasanaethu di
drwy ddangos cefnogaeth ymarferol i'n cymdogion yn Libya.
Pan fydd maint y drychineb yn codi braw arnom,
ysbrydola ni â'th Ysbryd er mwyn inni wybod
sut i wneud gwahaniaeth.
Diolchwn am waith yr holl asiantaethau cymorth ar lawr gwlad,
ac i bawb sy'n rhoi'r hyn a allant i helpu i achub bywydau
a chefnogi goroeswyr.
Arglwydd, bydd yn agos at bobl Libya.
Gweddïwn hyn yn enw dy fab annwyl Iesu Grist. Amen.

Haf yng Ngholeg y Bala
Tudalen 2

Diolch, Watcyn
Tudalen 3

O Gefn Gwlad
Cyfrinach hapusrwydd
Tudalen 7

# Haf yng Ngholeg y Bala

## Profiadau un ferch ifanc fu ar rai o gyrsiau'r haf hwn yng Nghanolfan Plant ac Ieuenctid Coleg y Bala

Yn ystod yr haf, fe fues i'n ffodus iawn i gael y cyfle i dreulio tair wythnos gyfan yng Ngholeg y Bala. Roeddwn yn arweinydd am y tro cyntaf ar y CWRS Ieuenctid, sef wythnos o weithgareddau ynghyd ag addoliad a sesiynau dan arweiniad gwahanol siaradwyr i bobl ifanc blynyddoedd uwchradd 7–10. Roedd y cwrs hwn yn llawn egni, cyffro a llawenydd wrth i'r bobl ifanc a'r arweinwyr fwynhau dod i nabod ei gilydd a threulio amser ym mhresenoldeb Duw. Cafwyd amser gweddi ac addoliad bendithiol bob nos, a bu'n gyfle arbennig i nifer o'r ieuenctid i roi eu bywydau i'r Arglwydd. Yn bersonol, roedd gweld cymaint o bobl ifanc yn dewis rhoi eu bywydau i'r Arglwydd yn brofiad anhygoel a bythgofiadwy i mi. Roedd gweld Duw ar waith fel hyn yn rhyfeddol.



Cwrs Ieuenctid

Fe fues i hefyd yn cydarwain Anhrefn Awst, sef cwrs i blant 8–11 oed. Roedd yr wythnos hon yn cynnwys gweithgareddau megis gemau dŵr, chwaraeon, a thrip i'r Gelli Gyffwrdd. Roedd yr wythnos yn seiliedig ar stori am fywyd Dafydd. Roedd hi'n braf gweld cymaint o blant ifanc ledled Cymru yn cymryd rhan yn yr holl weithgareddau hwyliog ac yn gwrando'n astud yn ystod y sesiynau o dan arweiniad Nia Williams.



Anhrefn Awst

Tuag at ddiwedd yr haf, mynychais Souled Out, sef cynhadledd i bobl ifanc 15+, myfyrwyr, ac oedolion ifanc. Fe wnes i wirioneddol fwynhau yr wythnos fel aelod o'r ieuenctid. Roedd hi'n wythnos hwyliog iawn a dysgais gymaint am Dduw, ac fel canlyniad i hyn teimlaf fy mod wedi tyfu yn fy ffydd ac agosáu at Dduw. Cafwyd amrywiaeth eang o seminarau a fu'n addas i bawb. Uchafbwynt yr wythnos i mi oedd y sesiwn addoliad ychwanegol 'dyfnach'. Roedd cymaint o'r ieuenctid yn ymateb i alwad Duw ac yn rhoi eu bywydau yn llwyr i'r Arglwydd. Teimlais gymaint o gyffro wrth weld Duw ar waith o flaen fy llygaid fy hun. Roedd yn brofiad hollol syfrdanol i mi, a chefais fy llenwi gyda gymaint o anogaeth ac ysbrydoliaeth i barhau i dyfu yn fy ffydd. Roedd digonedd o amser hefyd i gymdeithasu a threulio amser gyda ffrindiau newydd wrth chwarae pêl-droed, cymryd rhan mewn gweithgareddau crefft, cwrs rhwystrau, a dawnsio yn y disgo.



Souled Out

Ar y cyfan, dwi wedi cael haf anhygoel o fuddiol ac ysbrydol, a dwi'n ddiolchgar o gael bod yn rhan o deulu Coleg y Bala.

*Alaw Elisa (16 oed)*
*Crymych, Sir Benfro*

# Diolch, Watcyn

Yn dilyn wyth mlynedd fel golygydd *Y Goleuad* ac aelod o dîm golygyddol *Cenn@d*, fe ymddeolodd y Parch. Ddr Watcyn James o'i gyfrifoldebau fel golygydd. Mawr yw ein diolch iddo am y cyfan a gyflawnodd.

Hyfrydwch yw cael dymuno'n dda i'r Parchg Ddr R. Watcyn James wrth iddo ymadael â'i sedd wrth fwrdd golygyddol *Cenn@d*. Bu Watcyn, ynghyd â Huw ac Aled, wrth wraidd llwyddiant diamheuol *Cenn@d* ers y dechrau. Bu'r bartneriaeth rhyngddynt yn un hapus, mi wn, ond ychydig sy'n gwybod am y gwaith a aeth i mewn i'r fenter o'r dechrau, ac am y llafur, yr egni a'r dychymyg a sicrhaodd fod dros 130 o rifynnau wedi ymddangos mor belled, â chymaint o raen ar bob un ohonynt.

Mae newyddiadurwyr crefyddol yn brin yn y Gymru hon, a newyddiadurwyr galluog yn brinnach fyth. Cafodd Watcyn brentisiaeth, a mwy na phrentisiaeth wrth olygu'r *Goleuad* gynt, a daeth â'i sgiliau, ei frwdfrydedd a'i sêl dros eglwys Iesu Grist a buddiannau'r efengyl i mewn i waith *Cenn@d*. Cafodd Bedyddwyr, hen ffyddloniaid *Seren Cymru*, a rhai o ddarllenwyr *Y Tyst*, eu cyfoethogi'n ddirfawr trwy ei ymroddiad.

Rhoes y gorau i'r gwaith nid am iddo flino arno, ond am fod ganddo brosiectau cyffrous eraill ar y gweill. Dymunwn y gorau iddo at y dyfodol, a diolchwn yn ddiffuant iddo am bob peth a gafwyd ganddo hyd yma. Diolch, Wat!

*D. Densil Morgan*
*Cadeirydd Cenn@d*

---



Y tro cyntaf i mi gyfarfod y Parch. Ddr R. Watcyn James, hyd y cofiaf, oedd yn festri Capel y Morfa, Aberystwyth, yn 2015 pan ddaeth i gyfweliad am swydd Golygydd *Y Goleuad* a Swyddog Cyhoeddiadau Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Roeddwn i wedi cael gwahoddiad i fod yn aelod o'r panel cyf-weld, ac roedd yn bleser gwrando ar frwdfrydedd byrlymus Watcyn wrth iddo amlinellu ei weledigaeth ar gyfer y gwaith. Does dim amheuaeth na wnaed y penodiad cywir y diwrnod hwnnw! Mae golygu cyhoeddiad wythnosol sylweddol ac amrywiol ei gynnwys yn gofyn am gryn ymroddiad a dyfalbarhad. A bu Watcyn yn ddiwyd yn llywio'r *Goleuad* – 'yn calonogi, yn ysbrydoli, yn adeiladu' – hyd nes y gwnaed y penderfyniad blaengar i uno â'r Bedyddwyr i sefydlu *Cenn@d* yn bapur cydenwadol ym mis Mawrth 2021.

Yn ystod y trafodaethau maith a arweiniodd at sefydlu'r cyhoeddiad newydd, bu Watcyn yn allweddol yn ei ddoethineb a'i arweiniad, a bwriodd ati gyda'r un ymroddiad fel aelod o dîm golygyddol *Cenn@d*. Gyda'i ddiddordeb a'i ddawn arbennig i 'agor y Gair' roedd yn naturiol iddo fynd yn gyfrifol am ddeunydd myfyrdod a defosiynol y cyhoeddiad newydd. O'r dechrau cyntaf bu'n gyfrifol am lunio gwasanaeth cyflawn i'w gynnwys yn y cyhoeddiad bob wythnos – 'Dyma gyfarfod' – a chyhoeddwyd dros 130 ohonynt yn y gyfres, sy'n adnodd gwerthfawr ynddo'i hun.

Yn ychwanegol at hyn, bu ei waith blaengynllunio gofalus a thrylwyr yn gaffaeliad mawr wrth i *Cenn@d* ymsefydlu a datblygu. Aeth ati i gomisiynu erthyglau a chyfraniadau gan golofnwyr amrywiol a phwrpasol, gan roi ambell 'broc i'r cof' lle bo angen. Yng nghyfarfodydd plygeiniol y tîm golygyddol ar fore Llun, Watcyn sydd wedi bod yn bennaf cyfrifol am roi trefn ar y deunyddiau – ac ar weddill aelodau'r tîm – a llunio patrwm y rhifyn nesaf. Fydd y cyfarfodydd hynny ddim yr un fath heb eich synnwyr digrifwch unigryw!

Felly, diolch o galon, Watcyn, am yr holl lafur gyda'r *Goleuad* a *Cenn@d*, a phob dymuniad da gyda'r prosiectau a'r cynlluniau eraill sydd ar y gweill gennych.

*Marian Beech Hughes*

---

Ers sefydlu *Cenn@d* dwy flynedd a hanner yn ôl, dwi wedi bod yn disgwyl ymlaen at bob bore Llun ar gyfer ein seiadau awr fel tîm o olygyddion, wrth roi'r rhifyn cyfredol i'w wely ac yna dechrau cynllunio ar gyfer rhifyn yr wythnos ddilynol. Bûm yn olygydd *Seren Cymru* am 15 mlynedd cyn hynny, ac i raddau yn gweithio ar fy mhen fy hun. Wedi dweud hynny, roedd 'na gydweithio rhwng y tri golygydd enwadol a golygydd y 'Pedair Tudalen', ac wrth gwrs bu Watcyn yn olygydd *Y Goleuad* am dros bum mlynedd, ac yn frwd a blaengar bob amser.

Ond ers mis Mawrth 2021, 133 rhifyn yn ôl, sefydlwyd trefn bod y pedwar ohonom, sef Watcyn, Huw, Marian a minnau, yn cyfarfod dros Zoom i gytuno ar gynnwys a threfn pob rhifyn, a hynny am 8.45 bob bore Llun. Ac mae 'cytuno' yn air allweddol, gan ein bod wedi llwyddo i gydweithio mewn ysbryd cytûn a chyfeillgar gydol y cyfnod. Roedd y sgwrs rhwng tri gweinidog a blaenores yn gallu bod yn ddifyr iawn ar fore Llun, wrth drafod oedfaon y Sul a phynciau cyfredol yn y newyddion. Roedd cyfraniad Watcyn bob wythnos yn sylweddol – yn gofalu am y Zoom, yn gwneud cofnod manwl o gynnwys pob rhifyn, a gyda chwestiynau craff am y cynnwys. Roedd am i waith yr eglwysi gael ei weld mewn golau da bob amser, ac fel adnodd i'r aelodau. Ei gamp fwyaf, heb os, oedd llwyddo i baratoi oedfa wythnosol ar gyfer y clawr cefn, a'r rheini bob amser yn gyfoethog o ran cynnwys a rhemâu.

Un o rinweddau mawr Watcyn ydi ei awydd i gynllunio ymlaen – mae'n debyg, petai yntau wedi cael ei ffordd, y byddai ein rhifyn Nadolig ar ei ffordd i'w wely yn barod! Heb os, fe gollwn y wedd yna o baratoi misoedd ymlaen llaw, a'r manylder o ran gofalu bod pawb yn hapus efo'r cynnwys. Mae'n debyg hefyd, gydag amser, y down i golli ei hiwmor a'i jôcs sâl, ond efallai y cymer hynny ychydig o amser!

Diolch, Watcyn, am dy gyfraniad i *Cenn@d*, a dymunwn yn dda i ti wrth i ti gael amser, gobeithio, i gwblhau projectau gwahanol. Bendith ar dy weinidogaeth ac ar dy aelwyd.

*Aled Davies*

---

Gyda diffuantrwydd yr ydym yn diolch i Watcyn am ei gyfraniad hyd yma mewn perthynas efo'r *Goleuad* gynt a *Cenn@d*. Wrth edrych yn ôl ar y dyddiau lle roedd pawb yn ei faes ei hun yn casglu ei ddeunydd yn wythnosol ar gyfer y gwahanol gyhoeddiadau, fe ddaeth bendith inni a ffordd newydd o weithio wrth inni gael y fraint o weithredu fel tim o fis Mawrth '21 ymlaen.

Yn aml, fe fydd gweinidogion yn bwrw ymlaen ar eu trywydd eu hunain gan wynebu llwyth gwaith yn ddigon stoicaidd. Felly, roedd yn beth amheuthun iawn cael cyd-drafod a threfnu a rhannu wrth ddwyn y papur i sylw'r darllenwyr yn wythnosol. Fe welsom ni rhyngom fel y mae modd i

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

***Diolch, Watcyn***
*(parhad o dudalen 3)*

dîm weithredu ar ei orau wrth i Watcyn fod yn cadw trefn arnom, a hynny yng nghanol ei brysurdeb a'i alwadau fel bugail yn ei ofalaeth. Bu Watcyn yn ymwybodol o'r safonau oedd i'w cynnal ers dyddiau'r *Goleuad* a'r cydbwysedd deunyddiau, a'r nodau hynny i fod yn bwydo ac annog a herio'r darllenwyr yn eu ffydd a'u bywydau yn amlwg iawn ganddo.

Bu'n ymwybodol ei fod mewn olyniaeth deg o olygyddion, ac er mai ef fu golygydd olaf y *Goleuad* pan ddaeth hwnnw i ben gyda chychwyn *Cenn@d* ar y cyd â'r Bedyddwyr a'r trefniant cydenwadol i rannu deunydd â'r Annibynwyr, nid oedd yna amser i ofidio gormod am a fu, gyda'i draddodiad cadarn a'i olyniaeth, gan fod yna gylchgrawn newydd digidol a chyffrous i'w ddwyn allan i'r golwg bob wythnos.

Mae Watcyn yn hanesydd praff ond yn gallu dirnad yr amserau yr ydym ninnau ynddyn nhw hefyd, ac fe addasodd ei hun yn hynod i'r her newydd hon a'n helpu ninnau i gyd wrth weithio drwyddo gyda'n gilydd. Bu'r cydweithio yn felys ac fe fu'n gymorth inni yn nyfnder cyfnodau clo Covid-19 a gofidiau'r cyfnod diweddar i fod yn cydgyfarfod a chyd-drafod ac ymddiddan yn wythnosol a chefnogi ein gilydd. Rwy'n ddiolchgar iawn am hynny. Bu'n rhaid iddo barhau i gymell ac i drefnu ac atgoffa cyfranwyr, gan wneud hynny gyda gras ac amynedd di-ball. Bu'n allweddol wrth geisio ymestyn y 'lastig pan oedd deunyddiau yn brin a dim yn digwydd, a'i gywasgu wedyn pan ddaeth mwy o lawnder. Fe fyddwn yn edrych yn ôl at y cydweithio hwn gyda hiraeth.

Gan ategu diolch Aled a Marian fel cyd-olygyddion, a Densil fel cadeirydd, yr ydym yn gobeithio y caiff gyfle i roi trefn ar y prosiectau hynny sy'n mynd i barhau i alw arno hyd nes iddo gael eu dwyn i ben. Bydd yn chwith ei golli o'r tîm, ond diolchwn am yr oll a gafwyd fel cyfraniad i Gristnogaeth yng Nghymru yn ei rôl fel golygydd, ac edrychwn ymlaen at ambell gyfraniad ganddo eto yn ei dro ac at weld ffrwyth y llafur y bydd yn troi ei law ato nawr. Gan ddiolch am a fu a gweddïo bendith iddo am a ddaw.

*Huw Powell-Davies*

# Sul Digartrefedd

Y darlun ddaw i'r meddwl wrth sôn am ddigartrefedd yw rhywun yn cysgu ar y stryd, ac ysywaeth mae hynny yn digwydd ar draws Cymru. Ond mae bod heb gartref yn fwy na bod heb do uwch eich pen. Mae Housing Justice Cymru, sy'n un o aelod fudiadau Cytûn, yn gweithio gyda gwirfoddolwyr o fewn yr eglwysi:

- i letya ffoaduriaid mewn cartrefi croesawus;
- i helpu'r sawl sy'n symud ymlaen o hosteli i'w llety cyntaf i droi'r gofod yn gartref go iawn;
- ac i helpu'r sawl sy'n wynebu digartrefedd i gadw neu ddod o hyd i gartref cynaliadwy.

Maent hefyd yn cydweithio gyda chymdeithasau tai ac eglwysi o bob enwad sydd â thir ar gael i godi tai neu fflatiau ar rent i ddarparu cartrefi i bobl leol. Gellir darllen mwy ar eu gwefan ddwyieithog: https://housingjustice.org.uk/cymru

Mae Sul Digartrefedd – eleni ar 8 Hydref, neu unrhyw Sul arall sy'n gyfleus i chi – yn cynnig cyfle:

- i weddïo dros bobl sydd heb gartref go iawn a'r mudiadau hynny sy'n eu cefnogi;
- i hybu aelodau o fewn eich cynulleidfa i wirfoddoli;
- ac, os dymunwch, i godi arian ar gyfer gwaith Housing Justice Cymru yn y flwyddyn sydd i ddod.

*Gethin Rhys*
*Swyddog Polisi Cytûn*

**Gweddi Sul Digartrefedd, 8 Hydref 2023**

Dduw trugarog,
fe ddywedodd dy fab Iesu Grist
"Y mae gan llwynogod ffeuau, a chan adar yr awyr nythod,
ond gan Fab y Dyn nid oes lle i roi ei ben i lawr." [Mathew 8:20, BCND]

Fe wyddost felly sut beth yw byw fel crwydryn heb wybod ble fyddi yn cysgu heno,
ac rwyt yn cyd-deithio â phawb sydd yn byw heb loches parhaol,
yn cysgodi ar drugaredd ffrindiau, mewn llety dros dro, neu ar y strydoedd.
Yn dy drugaredd, felly, bendithia waith Housing Justice Cymru
a phawb sy'n gwirfoddoli i letya ffoadur,
i gefnogi pobl yn eu cartref sefydlog cyntaf trwy gynllun Citadel,
i fwydo'r newynog neu ofalu am y claf.

Nertha eglwysi Cymru i ymateb i anghenion ein cymdogion
a hynny heb farnu nac edliw,
ond gan efelychu dy awydd di i ddeall, i fendithio ac i nerthu.
A bydd gyda staff cyflogedig ac ymddiriedolwyr Housing Justice wrth iddynt lywio'r gwaith
a chyda phawb yn Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sy'n gweithio yn y maes hwn.
Yn enw Iesu y gofynnwn hyn, Amen.



Llun: housingjustice.org.uk/blogs/2023/wns-case-studies

# ‘Dringo’r ail fynydd: y dyfodol i eciwmeniaeth yng Nghymru?’ (rhan 2) Darlith er cof am y Parch. J. Lloyd Jones


### Y Parch. Siôn Brynach
### Prif Weithredwr Cytûn, Eglwysi ynghyd yng Nghymru


### Eglwys Beuno Sant, Clynnog Fawr
### nos Fercher, 9 Awst 2023

Yn ddiddorol ddigon, dyma [canlyniadau Cyfrifiad 2021] oedd pwnc yr Archesgob Andrew John o’r Eglwys yng Nghymru pan roddodd anerchiad i grŵp trawsbleidiol Senedd Cymru ar grefydd ym mis Mehefin, a sgwrs ddiddorol oedd hi hefyd. Yn ei anerchiad fe wnaeth yr Archesgob gydnabod – fel y mae Gethin yn ei wneud – fod canlyniadau’r cyfrifiad yn codi mwy o gwestiynau nag atebion, ond yn sicr ei gasgliad oedd fod ’na newid wedi bod yn ymlyniad crefyddol y genedl ac fe awgrymodd sawl rheswm am hyn. Y cyntaf o’r rhain yw’r twf mewn seciwlariaeth a bod hyn i raddau yn deillio o’r newid pwyslais oherwydd gwelliant cymharol y rhelyw o’r boblogaeth i fod yn fwy cefnog. Felly’r pwyslais nawr yw ‘lles materol’, gyda phobl yn llwyddo i fyw o ddydd i ddydd heb Dduw. Mae’n cyfeirio hefyd at y ffaith ein bod yn ôl-fodernaidd, bod ’na gystadleuaeth fawr ar y Sul bellach a bod hyn wedi bod yn her i bob math o sefydliadau, nid dim ond yr eglwysi.

Cyfeiriodd hefyd at berthynoliaeth (*relativism*) – a’r rhelyw ohonom ni â’n cred ar ryw ran o’r sbectrwm yn hytrach na chred absoliwt, ond mae ’na anogaeth yn yr amrywiaeth yma hefyd, yn ogystal â chyfleoedd. Awgrymodd yr Archesgob fod ’na gyfleoedd yn perthyn i’n hadeiladau eglwysig yn ogystal â heriau, a bod yr esiampl a roddir gan gredinwyr sy’n byw bywyd sanctaidd ac yn rhoi eraill yn gyntaf yn annog y ffydd – ‘planet we, not just planet me’.

Ac yna’r symud a fu i gael profiadau; yn fwy nag erioed o’r blaen mae pobl eisiau profiadau, ac mae ’na gyfle gwirioneddol yn hynny gan fod pobl yn dal ag ymlyniad at werthoedd ac yn dyheu am rywbeth y tu hwnt i’r materol yn unig. Mae ’na gyfle gwirioneddol felly i ni fel eglwysi gynnig profiad ysbrydol *authentic* i’r rhai sy’n chwilio amdano, a bod hynny’n bwysicach i’r rhelyw na chyflwyno’r ffydd mewn ffordd ddeallusol.

Roedd yr hyn a ddywedodd Archesgob Andrew tua diwedd Mehefin yn adleisio cryn dipyn o’r pedair araith allweddol a glywais i rai dyddiau yn gynt yn ystod Cymanfa Gyffredinol CEC (Conference of European Churches), oedd yn cwrdd yn Tallinn, Estonia, rhwng 15 a 20 Mehefin. A’r rheswm pam rwy’n cyfeirio at yr areithiau hynny yw bod ’na wersi amlwg i ni yma yng Nghymru o’r areithiau a glywyd. Y wers amlycaf oll, efallai, yw pwysigrwydd ehangu yn hytrach na chrebachu ein gorwelion, hyd yn oed wrth i’r niferoedd sy’n mynychu ein heglwysi leihau, gan fod gennym gymaint yn gyffredin â’r hyn sy’n digwydd mewn rhannau eraill o Ewrop ac yn wir yng ngweddill y byd, ac y gellir ei ddysgu oddi wrthynt.

Y siaradwr allweddol cyntaf oedd Sviatlana Tsikhanouskaya, sef arweinydd yr wrthblaid yn Belarus wedi i’w gŵr, Siarheu, a fu’n arweinydd cynt, gael ei arestio gan unben Belarus, Aleksandr Lukashenko. Fe siaradodd hi’n ddirdynnol am y sefyllfa yn Belarus yn dilyn y gwrthryfel heddychlon a ddigwyddodd yno



Siôn Brynach yng Nghlynnog

yn 2020. Am rai dyddiau, roedd y gwrthryfel yn ymddangos fel petai’n llwyddiannus, cyn i’r unben Lukashenko ymateb i’r protestiadau heddychlon gyda thrais difrifol sydd wedi para ers hynny. Mae rhyw 4,000 o wrthwynebwyr bellach wedi eu carcharu ar ôl wynebu cyhuddiadau chwerthinllyd – megis gwisgo dillad o’r lliw ‘anghywir’.

Ond eto, roedd ei gweledigaeth hi o le Cristnogaeth yn gwrthwynebu’r trais hwnnw yn gwbwl glir – dim ond â daioni y mae trechu drygioni. Rhybuddiodd hefyd fod *regimes* treisgar bob amser yn ceisio rheoli cynrychiolwyr ffydd oherwydd bod arnynt ofn y ffaith fod ganddynt ymlyniad wrth Duw yn hytrach na dim ond rhywbeth bydol. Felly, maent yn ceisio’u gorthrymu, yn ceisio prynu eu tawelwch drwy roi breintiau neu ffafrau iddynt. Wrth gwrs, maent yn aml yn llwyddo – a doedd hi’n ddim syndod o bosib ei chlywed yn feirniadol o’r Patriarch Kirill yn Moscow, a’i ymateb ef i ymosodiadau Rwsia ar Wcráin. Ond roedd Sviatlana yn glir nad oedd dim modd ennill rhyfel heb hefyd ennill yr heddwch, a bod yn rhaid ymwrthod â thrais. Credai fod gan Gristnogaeth a’r eglwysi Cristnogol le allweddol yn dadlennu twyll, celwyddau a thrais llywodraethau ar draws Ewrop, a gwneud hynny drwy sefyll dros y gwir, drwy sefyll yn glir dros frawdoliaeth a chwaeroliaeth a chariad yng ngwir ystyr y gair, ym mha bynnag ffordd bosib, yn cynnwys gweddi.

Neges fawr Hartmut Rosa, yr academydd a’r cymdeithasegydd o’r Almaen, oedd pwysigrwydd cyseiniant (*resonance*) yn ein bywydau, a dod o hyd i gydbwysedd. Mae’n gweld ein bod wedi

(parhad ar y dudalen nesaf)

*‘Dringo’r ail fynydd: y dyfodol i eciwmeniaeth yng Nghymru? (rhan 2)’*
*Darlith er cof am y Parch. J. Lloyd Jones*
*gan y Parch. Siôn Brynach*
*Prif Weithredwr Cytûn, Eglwysi ynghyd yng Nghymru*
*(parhad o dudalen 5)*

cyrraedd sefyllfa bellach fel cymdeithas Ewropeaidd o fod yn carlamu er mwyn aros yn yr unfan, a bod angen ailflaenoriaethu ar ein bywydau er mwyn symud ymlaen o’r pwyslais ar dwf diderfyn ac yn hytrach ailddarganfod lle ein perthynas â’n gilydd.

Tybed nad oes gwersi i ni fel eglwysi yng Nghymru yn hyn o beth hefyd? Oes ’na ormod o bwyslais wedi bod ar dwf? A ydym wedi colli’r gallu i gydnabod y pethau eraill y dylem fod yn eu cyfrannu at gymdeithas, ac wedi ein llyncu gan y celwydd mai twf yw llwyddiant? Fel y dywedodd Rosa, un o wendidau amlwg ein cymdeithas bellach yw nad oes iddi galon sy’n gwrando: ‘This society massively lacks a listening heart.’ Ac mae ’na le i eglwysi ddarparu hynny os medran nhw symud y tu hwnt i gyhoeddi a diogelu gwirioneddau yn unig, sef yr hyn sy’n achosi calon galed yn ôl Rosa.

Oes ’na le i ‘gyseiniant’ yn ein ymwneud â’n gilydd wrth i ni edrych at ddyfodol eciwmeniaeth yng Nghymru? Oes gennym ni galon sy’n gwrando, wrth i ni ymwneud â’n gilydd? Ac a all y cyseiniant – y *resonance* – hwn arwain at eni rhywbeth newydd? Pan fydda i’n siarad gyda’r rhelyw o weinidogion a gweithwyr eglwysig, mae’r diffyg *resonance* yn eu bywydau yn glir. Does bosib nad ydym ni hefyd wedi cyrraedd sefyllfa bellach o redeg i aros yn ein hunfan, a bod yn rhaid cydnabod nad dyma’r ffordd o wireddu Teyrnas Dduw. Perthynas yw’r cyfan, ac yn ôl Rosa, ‘Religion derives its great power, namely from the fact that it makes a kind of vertical promise of resonance, that it says: the silent, cold, hostile or indifferent universe is not at the basis of my existence, but a response relationship ... “I have called you by your name, you are mine”.’ Gadewch i ni gofio hynny.

Ond wrth gwrs mae ’na berygl mewn eciwmeniaeth hefyd; does ond raid i chi gofio cyfres deledu gomedi boblogaidd *Father Ted*. Pan oedd unrhyw beth yn anodd neu’n gymhleth, yna ‘that would be an ecumenical matter’ fyddai geiriau anochel clerigion Craggy Island.

Dyna hefyd rybudd y Patriarch Uniongred Eciwmenaidd Barthlomew, a rybuddiodd rhag cael ein swyno gan yr hyn mae’n ei alw’n ‘eciwmeniaeth newydd’. Dyma fudiad yr oedd ef yn ei ddiffinio fel un sy’n bygwth dwyn ynghyd ystod o gredoau – cyson, yn eu tyb nhw, â Christnogaeth – gan ffwndamentalwyr ‘family values’. Ar ôl pedair blynedd o Trump yn y Tŷ Gwyn prin fod angen gwneud y pwynt hwn. Ond, fel y pwysleisiodd Sviatlana Tsikhanouskaya, mae’r ymadrodd ‘pan gyll y call fe gyll ymhell’ yn medru bod yn arbennig o wir am arweinyddion eglwysig sy’n cael eu hudo a’u swyno gan atyniadau’r byd hwn – ac yn enwedig felly o ran grym a dylanwad tybiedig.

Fe hoffwn hefyd gyfeirio at ddwy araith arall a glywais yn ddiweddar oedd â themâu digon tebyg i’w gilydd. Y gyntaf oedd araith cyn-Archesgob Cymru, Rowan Williams, yng Nghymanfa Cyffredinol CEC yn Tallinn, a’r ail oedd araith arbennig yr Athro Anthony Reddie, Cyfarwyddwr Canolfan Rhydychen ar gyfer Crefydd a Diwylliant, Coleg Mansfield, Rhydychen, yng Nghyfarfod Cyffredinol yr Annibynwyr Cymraeg yn Rhosllannerchrugog ddiwedd mis Mehefin. Roedd Anthony yn siarad ar wahoddiad Llywydd newydd yr Annibynwyr, sef y Parch. Jeff Williams. Ond araith Rowan Williams yn gyntaf.

Cychwynnodd yr Archesgob ei araith drwy holi beth yw ystyr cael ein bendithio, gan gyfeirio at y Bregeth ar y Mynydd yn benodol. Mae’n dweud mai pobl wedi eu bendithio – pobl ffodus – yw’r rheini nad ydynt yn gaeth neu’n garcharorion i’w storïau eu hunain, ac sy’n medru osgoi cynyddu’r adnoddau sydd ganddynt a chydnabod yn hytrach eu dibyniaeth ar roddion Duw ac ar ei drugaredd. Ac mae hyn yn wir am eglwysi ac am fudiadau hefyd – yn cynnwys y mudiad eciwmenaidd yng Nghymru. Mae’n cydnabod bod gennym ni oll ein storïau amdanom ni ein hunain a bod dim o’i le ar hynny, ond bod modd i ni fynd yn gaeth i’r storïau hynny, os ydyn nhw’n cyfrannu’n anghymesur at ein statws ac at ein hunaniaeth. Yng ngeiriau Rowan, ‘There are some stories that become so compulsive we have a kind of addictive relation, almost, to a picture of how we work and who we are. And so we build up and we reinforce all those things that give us a sense of worth and virtue.’

Mae’n mynd ymlaen i bwysleisio bod hyn yn groes i’r naratif Cristnogol sy’n dweud NAD oes angen i ni ennill ein gwerth ein hun; does dim angen i ni gyrraedd rhyw lefel o ddaioni cyn bod Duw yn ein caru ni a’n bod yn teimlo’n sicr. Mae stori Duw yn glir: mae’n ein caru ni beth bynnag ac mae hyn i’w weld yn y Beibl drwyddo draw, megis yn llyfr Deuteronomium, lle dywed Moses wrth bobl Israel: ‘Y’ch chi’n meddwl bod Duw wedi eich dewis chi am eich bod yn ysblennydd? Na, mae Duw wedi eich dewis chi am ei fod wedi eich dewis chi.’

A’r un peth yn y Testament Newydd, ac yn enwedig hanes y swper olaf lle mae Iesu yn dweud wrth ei ddisgyblion: ‘Dwi’n gwybod eich bod chi i gyd yn mynd i fy ngadael i lawr. Dyma fy nghorff a fy ngwaed i’ch porthi, achos dwi ddim yn mynd i unman – fe fydda i gyda chi hyd ddiwedd yr oes.’ Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu gan yr Atgyfodiad lle mae Duw Dad yn dweud yr un peth: ‘Dwi’n mynd i nunlle, dyw’r Mab yn mynd i nunlle, a dyw’r Ysbryd Glân yn mynd i nunlle. Rydym ni yma. Rydym ni yma gyda chi.’ Hynny yw, rydym ni oll wedi ein galw i fod yn rhan o gymuned lle NAD oes angen i ni brofi ein gwerth byth a hefyd, lle dyw’r niferoedd yn ein heglwysi a’n llwyddiant ni ddim yn bwysig, lle bo ein hanfod ni yn dod o’r ffaith fod Duw yn ein caru ni. Swnio’n debyg i ‘resonance’ Hartmut Rosa?

(*i’w barhau*)

Gellir darllen y ddarlith gyfan ar wefan Cytûn.

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 24 Medi, am 7:30yb a 16:30yp**
Cyfieithiadau – Elen Ifan yn trafod emynau sydd wedi’u cyfieithu

**Sul, 24 Medi, am 12yp**
Oedfa dan ofal Catrin Isaac Thomas, Maenclochog

# O Gefn Gwlad

## Cyfrinach hapusrwydd

I unrhyw un sy'n cyfrannu erthyglau yn rheolaidd i gylchgrawn neu bapur, fel y byddaf fi i *Cenn@d*, y mae dyfyniad yn aml yn gymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder. Ac mae digonedd ohonyn nhw'n ymddangos, gan niferoedd helaeth o enwogion, a phobl gyffredin, weithiau yn y Gymraeg, yn amlach yn y Saesneg, gan fod honno yn iaith ryngwladol a miliynau yn ei siarad a'i sgrifennu.

Ond rhag i unrhyw beth a sgrifennaf swnio'n annidwyll i ddarllenwyr craff *Cenn@d*, byddaf yn ceisio ymatal rhag chwilio am ddyfyniad, gan berswadio fy hun, dim ond imi wrando digon ar bobol eraill yn hytrach na sbowtio fy hun (un o'm pechodau parod, rhaid cyfadde) a darllen digon, y daw yna i'm sylw, o dro i dro, ddatganiad fydd yn gwneud imi feddwl, ac yn ben llwybr addas i deithio ar hyd-ddo.

Rwy'n dweud hyn am iddo ddigwydd yn ddiweddar pan ddarllenais erthygl gan yr anturiaethwr rhyfeddol hwnnw Bear Grylls.

Go brin fod neb ohonoch, ddarllenwyr, na chlywodd yr enw. Ac os ydych yn berson sy wrth ei fodd yn gweld enwogion, a bod yn agos atyn nhw, siarad efo nhw efallai, byddwch yn genfigennus ohonof fi. Achos mi dreuliais i unwaith fin nos yn yr un caffi â fo. (Na, nid ar yr un bwrdd ond ar y bwrdd 'cosa!) Roedd hyn wrth y môr yn Abersoch, a daeth yno yn ei gwch mawr o Ynys Tudwal, ynys y mae'n berchen arni ac yn byw cyfnodau o bob blwyddyn yno. Rhaid i mi gyfadde na wyddwn pwy ydoedd nes i un o'm hwyresau fy ngoleuo!

Ond beth am y dyfyniad? Erthygl oedd hi am yr angen i ni, ddinasyddion Ynysoedd Prydain, ailafael yn niwylliant



Lluniau: US National Archives and Records Administration

gwirfoddoli. A dyma'i frawddeg ola: 'Cyfrinach hapusrwydd, a dweud y gwir, yw ei roi i eraill.'*

Y mae'r dyfyniad yn rhagdybio ein bod ni ein hunain yn hapus ac y gwyddom beth yw hapusrwydd. Rhag ofn fod amheuaeth, trown at yr athronwyr a chawn o leia bedwar ystyr iddo neu bedwar math o hapusrwydd.

Y math cyntaf yw hapusrwydd oherwydd ein disgwyliadau, a'r rheini yn cael eu cyflawni. Disgwyl galwad ffôn gan un o'r teulu sy'n byw ymhell a'i chael – hapusrwydd. Peidio'i derbyn – anhapusrwydd. Yna ceir hapusrwydd biolegol, a mater o deimlad ydi hwn, yn dibynnu'n bennaf ar ein hamrywiol hormonau a'u cydbwysedd. A thristwch mawr, wrth gwrs, yw'r hyn sy'n groes i'r teimlad hwn ac yn arwain yn aml at iselder, neu gyflwr beipolar.

Yna ceir yr hapusrwydd o ddarganfod ystyr bywyd, o deimlo ein bod yn rhan o ryw fwriad mwy na bodloni ein hunain, o fod yn teithio ar lwybr sy'n arwain i rywle pendant ac nid i ddifancoll; fod y cyfanfyd, fel y dywedir yn aml, yn teithio tuag adref ac mai ymlaen mae Canaan. Y tebyg yw mai'r hapusrwydd hwn ddylsai fod yn eiddo i ni, ni sy'n arddel crefydd, teimlad dwfn yn y galon neu'r meddwl, nid rhywbeth arwynebol sy'n deimlad y foment ac yn dod a mynd. Hwnnw yw'r math olaf o hapusrwydd a ddisgrifir gan athronwyr: rhannu pryd o fwyd efo rhywun cyn dychwelyd i'r nos, cwmni cyfeillion neu deulu cyn cael eich gadael ar eich pen eich hun.

Yn wir, o fynd at yr athronwyr, falle fod mwy o dywyllwch nag o oleuni i'w gael. A falle'n wir fod Bear Grylls wedi ei gweld hi, mai yn y rhannu y mae hapusrwydd ac mai trwy wneud rhywun arall yn hapus y cawn wir hapusrwydd ein hunain. Rhannu – un o eiriau pwysica ein crefydd o bosib. Ond mae'r syniad yn syniad delfrydol, ac yn gadael y cwestiwn a oes gennym ni fel Cristnogion, honedig o leia, yr hawl i fod yn hapus?

Trown i'r Beibl i ganfod y gwirionedd. A chawn ynddo sawl dyfyniad sy'n gymorth i ateb y cwestiwn. Dyma dri:

- Llawenhewch yn yr Arglwydd, yn wastadol, a thrachefn meddaf, llawenhewch. (Philipiaid 4:4)
- Calon lawen a wna les fel meddyginiaeth. (Salm 17:22)
- Am hynny mewn llawenydd y tynnwch ddwfr o ffynhonnau iachawdwriaeth. (Eseia 12:3)

Bodlonaf am y tro ar y geiriau hyn, sy'n gysur i mi, rhaid dweud, pan fyddaf yn teimlo'n hapus ac ar uchelfannau'r maes. A phan fyddaf yn teimlo felly, mi ddylswn yn bendant ei rannu ag eraill hefyd, yn hytrach na dweud wrth bawb arall beth i'w wneud!

* The secret of happiness really is giving it to others. (Bear Grylls o erthygl: 'Britain needs to revive its culture of volunteering')


*Elfyn Pritchard*

# Gair Duw ar Waith

**Maes Llafur ar gyfer grwpiau trafod oedolion neu astudiaeth Feiblaidd a dosbarthiadau ysgolion Sul, Hydref 2023 hyd Gorffennaf 2024**

Wedi blwyddyn o astudio hanes Abraham, mae'r deunydd am eleni yn cymryd trywydd cwbl wahanol, gan gyflwyno 44 o fyfyrdodau / astudiaethau sy'n canolbwyntio ar sut y gallwn roi ein ffydd ar waith yn ymarferol yn ein bywydau bob dydd. Rhoddir sylw i fudiadau cenhadol a dyngarol, a sut gallwn ni rymuso ein tystiolaeth a'n gwasanaeth o fewn ein cymunedau a'r byd. Bydd y gwersi'n ymwneud â ffydd ymarferol, gan drafod cenadaethau a gwasanaethu fel pobl Dduw. Paratowyd y myfyrdodau hyn gan y Parch. Denzil Ieuan John, Caerffili, a diolchwn iddo am y gyfrol werthfawr, a gyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau'r Gair, pris £7.99.

Meddai Denzil I. John:




'Ers degawdau bellach gwelodd pob traddodiad Cristnogol arwyddion o drai ar grefydd yng Nghymru, a bu nifer o eglwysi yn chwilio am ddeunydd addas i gynnal gweithgareddau a fyddai ar y naill law yn diwallu'r anghenion ysbrydol a hefyd yn cynnig syniadau i estyn allan i'r gymuned ehangach. Her i bob eglwys yw ceisio newid y drefn a chwilio am ffyrdd o addasu ein gweithgarwch fel bod addoliad, cymdeithas a chenhadaeth yr eglwys leol yn edrych allan i'r byd. Mae angen ceisio ffyrdd gwahanol a deniadol o gyfathrebu â'r rhai sydd wedi peidio mynychu addoliad eglwys neu na fu erioed yn rhan o gymdeithas ffydd. Dyma oedd y syniad creiddiol i hyrwyddo'r meddylfryd o "fyw'r Beibl".

'Trefnir y myfyrdodau'n fras fel eu bod yn berthnasol i dymhorau'r flwyddyn. Bydd ynddynt gyfeiriadau at ddigwyddiadau cenhadol eglwysi yng Nghymru a thu hwnt. Manteisiwyd ar weithgaredd eglwysi mewn ardaloedd a gwledydd eraill hefyd. Gobeithiwn y bydd syniadau o fewn y myfyrdodau hyn a fydd yn sbarduno ardaloedd eraill i ystyried sut i addasu prosiect ar gyfer eu hamgylchiadau hwy.'

Cyhoeddir gwers bob wythnos yn *Cenn@d* o ddechrau Hydref tan ddiwedd Gorffennaf 2024, a bydd yn cynnwys 5/6 o gwestiynau neu bwyntiau trafod ar gyfer grwpiau. Ond gellir hefyd ddefnyddio'r deunydd fel unigolion ar ein haelwydydd, a chael ein herio i feddwl sut gallwn ni fyw ein ffydd o ddydd i ddydd.

*Aled Davies*
*Cyngor Ysgolion Sul Cymru*

# Mwya'r brys, mwya'r rhwystr – deddfwriaeth newydd 20mya

Does dim sy'n dwyn amser yn fwy efallai na bod ar frys. Byddaf yn gorfod ail-wneud pethau yn aml oherwydd diofalwch a brys, ac yn anghofio pethau eraill yn eu sgil. 'Mwya'r brys, mwya'r rhwystr', meddai'r hen air, ac mae hynny'n dod â ni yn at yr hyn a ddaeth i fod ddydd Sul, 17 Medi, dydd gorffwys i'r rheiny sy'n dal i arddel yr angen am beth felly, a dydd cyntaf yr wythnos i'r Cristion. Dyma'r dyddiad pryd y daeth deddf newydd i rym ar draws Cymru i gyfyngu cyflymder cerbydau mewn pentrefi a threfi a dinasoedd, oedd gynt yn cael teithio ar 30mya, i lawr i 20 mya.




Mae rhai'n poeni y bydd eu siwrneiau'n mynd yn hirach, ac yn wir mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod hynny yn yr ohebiaeth am y mater i gartrefi pawb ohonom: munud yn ychwanegol i bob taith, medden nhw. Felly gobeithio nad oeddech chi'n hwyr i'r oedfa dydd Sul ar ddydd cyflwyno'r ddeddf! Bu cryn ddadlau a thrafod am y mater, gyda phobl yn teimlo'n gryf ar y naill ochr a'r llall.

Rhaid i mi ddweud bod croeso brwd i'r ddeddf ar ein stryd ni, gan ein bod yn byw ar y ffordd fawr yn yr Wyddgrug. Rydyn ni wedi dioddef blynyddoedd o boeni am gael mynediad i'r ffordd o'r dreif ac am gerdded ar hyd y palmant yn ddiogel wrth weld y rhan fwyaf o'r traffig yn gyrru ar fwy na 30mya. (Roedd rhai yn haeddu cael eu ffilmio gennyf a ffonio'r heddlu ym Mae Colwyn i gwyno amdanynt gan mor gyflym y gyrru.) Roedd rhai gyrwyr fel Jehiw gynt – yr hwn oedd yn 'gyrru yn ynfyd' yn ôl y Beibl! (2 Brenhinoedd 9:20)




Ond mae rhywun yn poeni faint o wahaniaeth fydd y ddeddfwriaeth newydd yma yn ei wneud mewn gwirionedd gan fod 'pawb', gan gynnwys mi fy hun, yn euog o dorri'r gyfraith fel y mae hi! Ar y cyrsiau 'ymwybyddiaeth cyflymder' y mae llawer ohonom yn gyfarwydd efo nhw oherwydd inni gael ein dal am ein brys a'n diofalwch, mae yna bwysleisio nad ydym ni'n ychwanegu fawr ddim at hyd ein taith wrth arafu i fod o fewn terfynau cyfraith gwlad.

Y gwir amdani ydy bod y rhan fwyaf ohonom ar frys gwyllt i gyrraedd at y peth nesaf neu'r lle nesaf sydd ar ein hagenda lawn, ac yn teimlo'n flin yng nghanol ein prysurdeb efo'r rheiny sy'n dweud wrthym y dylem arafu a chymryd mwy o amser ac efallai wneud llai. A dyna union neges yr Arglwydd ei hun wrthym yn ei Air. 'Peidiwch, a gwybyddwch mai myfi sydd Dduw' yw'r hen gyfieithiad o Salm 46:10, a 'Stopiwch! Mae'n bryd ichi ddeall mai Duw ydw i!' sydd gan Beibl.net. Er mwyn inni sylweddoli presenoldeb a gofal a llywodraeth Duw drosom, y mae'n gofyn inni arafu.

Prin y byddwn yn sylwi ar ddim wrth wibio ar y draffordd ar 70 mya, gan canolbwyntio ar y ceir o'n cwmpas. Ond wrth fynd yn arafach ar lonydd eraill, fe fyddwn yn sylwi ar ambell beth wrth basio – er bod raid cadw ein llygaid ar y ffordd eto rhag gyrru'n ddiofal. Wrth gerdded, fe fyddwn yn gallu cymryd llawer mwy i mewn a sylwi ar fywyd gwyllt a manylder ar bob tro yn y llwybr. Wrth lonyddu ac oedi am ychydig, fe fyddwn yn sylwi ar y man lle rydym wedi aros ac yn gallu gosod hwnnw yn y cof a'r meddwl i'w gadw a'i gofnodi.

Mae'r Arglwydd yn addo bod gyda ni yng nghanol ein prysurdeb a'n gofalon, ond mae o hefyd yn dyheu am inni oedi yn ei bresenoldeb a mwynhau ei gwmni ef – stopio a deall mai ef sydd Dduw. Hynny sy'n rhoi persbectif gwell inni ar y daith i gyd. Ni fydd raid inni boeni bod ein hamser yn cael ei wastraffu ac y byddwn ni'n hwyr yn cyrraedd y lle a'r digwyddiad nesaf; onid yw 'munud yn dy gwmni yn newid gwerth y byd'? Dydy treulio amser yng nghwmni'r Arglwydd byth yn wastraff amser, ac onid peidio treulio amser gyda'r Arglwydd sy'n dwyn amser ac yn creu trafferth inni?

Fe fydda i'n llawen o weld yr arwyddion 20mya yn cael eu dadorchuddio i gyd yr wythnos yma, ac yn ceisio atgoffa fy hun wrth eu gweld nhw o alwad yr Arglwydd, ein crëwr a'n Duw, i arafu ac oedi yn ei gwmni er ein lles a'n bendith ein hunain a phawb o'n cwmpas.

*Gol. HP-D*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru